## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

- Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:
    - mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
    - mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
    - mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau
- Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

## CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 7 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 7,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 7 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Amlinellwch y prif fathau o lywodraeth yn Ewrop yn 1780
- Dadansoddwch effeithiolrwydd yr ymdrechion i gyflawni cydweithrediad rhyngwladol yn Ewrop rhwng 1815 ac 1856
- Trafodwch pam fu chwyldroadau yn Ewrop rhwng 1830 ac 1848
- Trafodwch effaith Cwestiwn y Dwyrain ar y gydberthynas rhwng y Pwerau Mawr rhwng 1780 ac 1856
- Dadleuwch y prif resymau pam fu i'r Eidal ddod yn wlad erbyn 1871
- Dadleuwch y prif resymau pam fu i'r Almaen ddod yn wlad erbyn 1871
- Dadansoddwch y prif broblemau a wynebwyd gan lywodraeth Ffrainc rhwng 1848 ac 1871
- Dadleuwch lwyddiant Tsariaid Rwsia wrth ddelio â'r heriau a wynebwyd ganddynt, 1825-1881.


## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol.**

Mae'r mapiau isod yn dangos cyfansoddiad gwleidyddol Ewrop yn yr 1780au a'r 1870au. Defnyddiwch y mapiau i ddechrau trafodaeth ar beth oedd yn debyg a beth oedd yn wahanol yn Ewrop rhwng y dyddiadau hyn. Trafodwch pam ddigwyddodd y newidiadau hyn yn Ewrop.




Heb lwyddo i olrhain yr hawlfraint. A fyddech cystal â chysylltu â ni os chi yw deiliad yr hawlfraint.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Dadleuwch y prif resymau pam oedd yr Almaen wedi dod yn wlad erbyn 1871**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Arweinyddiaeth Bismarck
- Rôl Napoleon III a Ffrainc
- Dylanwad Awstria
- Twf economaidd Prwsia
- Dylanwad Moltke a von Roon
- Ymgyrchoedd milwrol llwyddiannus
- Cefnogaeth Ffredric William

- Twf cenedlaetholdeb yn yr Almaen
- Etifeddiaeth chwyldroadau 1848
- Twf Zollverein ar ôl 1834

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**'Y brif broblem a wynebwyd gan Ffrainc yn y cyfnod 1848-1871 oedd gyda materion tramor.' Trafodwch.**

H1: Roedd gan Ffrainc lawer o broblemau gyda pholisi tramor yn y cyfnod hwn, a orbwysodd unrhyw broblemau eraill.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw bod y brif broblem a wynebwyd gan Ffrainc yn gysylltiedig â phersonoliaeth Napoleon III.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau bod y gwir broblemau yn Ffrainc yn rhai tymor hir a oedd yn gysylltiedig ag effaith diwydiannaeth ar gymdeithas yn Ffrainc.

**Ategwch yr honiad hwn**

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**'Y prif reswm dros uno'r Eidal rhwng 1848 ac 1871 oedd y cyfraniad a wnaed gan y Pwerau Mawrion.' Trafodwch.**

**Nodweddion allweddol:**

Effeithiau chwyldroadau 1848 yn yr Eidal

Agwedd y Pab

Y sefyllfa ryngwladol

Cyfraniad unigolion allweddol – Mazzini, Cavour, Garibaldi

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Cyfranogiad Ffrainc

Y newid yn ffawd Awstria

Y newid yn y sefyllfa ryngwladol

Effaith yr amrywiol ryfeloedd

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Taleithiau'r Eidal yn 1848

Yr Eidal erbyn 1861

Yr Eidal erbyn 1866

Yr Eidal erbyn 1871

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Personoliaethau allweddol cysylltiedig

Y Babaeth

Pwysau a newidiadau economaidd a chymdeithasol

© Hawlfraint y Goron 2018

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 7 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 7. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | **Prif achosion** uno'r Almaen, 1848-1871 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid yn rôl** y Pwerau Mawrion yn ystod uno'r Eidal, 1815-1871 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | I ba raddau roedd bywydau'r gwerinwyr yn Rwsia wedi **newid** erbyn 1881 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** polisi tramor Napoleon III |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- I ba raddau y gellir dweud mai o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd y broses o uno'r Eidal ei **chyflawni'n bennaf** yn y cyfnod 1848-1870?
- I ba raddau rydych yn cytuno mai arweinyddiaeth Bismarck oedd yn bennaf gyfrifol am uno'r Almaen yn y cyfnod 1815-1870?
- Pa mor effeithiol fu'r Tsar Nicolas I yn delio â'r problemau a wynebai yn Rwsia rhwng 1825 ac 1855?
- 'Cafodd yr Almaen ei huno gan ryfel yn hytrach na gan ddiwydiant rhwng 1834 ac 1871.' Trafodwch.
- I ba raddau deliwyd yn effeithiol â Chwestiwn y Dwyrain rhwng 1815 ac 1856?
- I ba raddau gellir dweud mai'r Gyfundrefn Gyngresol gafodd y dylanwad mwyaf arwyddocaol ar y gydberthynas rhwng y Pwerau Mawrion yn y cyfnod 1780-1848?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'Cwestiwn y Dwyrain oedd y prif ddylanwad ar y gydberthynas rhwng y Pwerau Mawrion, 1780-1856.' Trafodwch*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

© Hawlfraint y Goron 2018

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 7. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Achosion y chwyldroadau yn Ewrop rhwng 1830 ac 1848
- Y rhesymau dros dwf y gwrthwynebiad yn Rwsia, 1825-1881
- Cymhariaeth o'r rolau a chwaraewyd gan Ffrainc ac Awstria yn y broses o uno'r Almaen a'r Eidal, 1815-1871
- Pwysigrwydd diwygiadau Alecsander II, 1855-1881
- I ba raddau newidiodd yr Eidal rhwng 1815 ac 1871

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## Enghraifft batrymol 1

**'Twf gwrthwynebiad gwleidyddol oedd y brif sialens yn wynebu Tsariaid Rwsia yn y cyfnod 1825-1881.' Trafodwch.**

Roedd twf gwrthwynebiad gwleidyddol yn sialens enfawr a wynebai Tsariaid Rwsia rhwng 1825 ac 1881. Gwnaeth yr ormes i atal y gwrthwynebwyr yn ystod teyrnasiad Nicolas ddal Rwsia yn ei hôl 30 mlynedd, ond daeth y ddeddf rhyddfrydoli yn ystod teyrnasiad Alecsander II ag awydd am ddiwygiad pellach a chafwyd cynnydd mewn mudiadau radical. Gwnaeth y ddau ymateb gynyddu nifer y gwrthwynebwyr ynghyd â'r awydd i gael gwared ar y Tsar.

Gellid dadlau mai Gwrthryfel y Rhagfyrwyr yn 1825 oedd dechrau'r gwrthwynebiad gwleidyddol, ac roedd yn sialens enfawr a wynebodd Nicolas. Dywed rhai mai dyma pryd y datblygodd mudiadau radical a chwymp Tsariaeth. Fodd bynnag nid oeddent yn wrthwynebwyr gwleidyddol mewn gwirionedd, oherwydd dim ond ystwytho awtocratiaeth yr oeddent ei eisiau. Nid oeddent erioed eisiau cael gwared ar y Tsar. Ymatebodd y Tsar â gormes eithafol a chafodd 31 aelod llafar iawn eu halltudio. Gwnaeth y gweithredoedd hyn o ormes ddal Rwsia yn ei hôl a'i hynysu oddi wrth y gorllewin. Roedd gormes llethol Nicolas yn deillio'n ôl i'r gwrthryfel hwn gan sicrhau mai'r gwrthwynebiad gwleidyddol oedd y brif sialens, oherwydd gwnaeth y modd yr ymdriniwyd â'r gwrthwynebiad achosi problemau eraill yn Rwsia.

Cafodd Alecsander II gynnydd dramatig mewn gwrthwynebiad gwleidyddol hefyd. Roedd yn gobeithio y byddai dull mwy rhyddfrydol o weithredu'n well, a rhyddhaodd 1800 o wrthwynebwyr yn 1858. Aeth yr ewyllys da hon o'i le yn y pen draw oherwydd cafodd ei lofruddio gan grŵp o wrthwynebwyr gwleidyddol. Gwnaeth hyn dynnu sylw at y ffaith mai prif sialens y ddau Tsar oedd y gwrthwynebiad gwleidyddol a'r modd yr ymdriniwyd â hynny. Fodd bynnag, pe bai Nicolas wedi gwneud rhai diwygiadau yn lle ei awtocratiaeth lwyr pan wnaeth Alecsander II ryddfrydoli, ni fyddai wedi cael cymaint o alw am ddiwygio pellach.

Gwnaeth y gwrthryfel yng Ngwlad Pwyl yn 1863 ddangos mai gwrthwynebiad gwleidyddol oedd y brif her, gan mai dyma pryd y gwelwyd trwy feddiannaeth dynn arferol Rwsia. Hon oedd y weithred gyntaf lle gwelwyd gwrthryfel yn Rwsia, gan sicrhau mai gwrthwynebiad oedd y brif broblem ynghyd â'r posibilrwydd y gallai ei awtocratiaeth gael ei gwestiynu. Fodd bynnag, tawelwyd y gwrthryfel hwn yn gyflym, a gellid dadlau fod Gwlad Pwyl y tu allan i Rwsia, a byddai hynny'n golygu nad y gweithrediadau hyn oedd y brif broblem. Ond gellid dadlau hefyd nad oedd erioed yn brif broblem hyd yn oed yn ôl yn 1825, na phan ryddhaodd Alecsander y gwrthwynebwyr, oherwydd erbyn 1864 roedd 250,560 o bobl wedi'u harestio, ond o'r rhai hynny, dim ond 5% ohonynt oedd yn cael eu hystyried yn wrthwynebwyr gwleidyddol, felly yn ôl pob golwg, nid oedd yn brif broblem gan nad oedd cymaint â hynny i ddechrau. Fodd bynnag, gallai hyn brofi ei fod yn broblem wedi'r cwbl ond nad oedd effeithiolrwydd awtocratiaeth Rwsia yn caniatáu iddo ddatblygu i fod yn brif sialens.

© Hawlfraint y Goron 2018

Roedd Rwsia hefyd yn wynebu'r sialens o daeogaeth. Roedd hyn yn effeithio ar 90% o'r boblogaeth, gan sicrhau mai dyma oedd y brif sialens gan fod cyfran mor fawr o'r boblogaeth yn gysylltiedig. Fodd bynnag, cafodd hyn ei datrys i ryw raddau yn 1861 gyda gorchymyn y taeogion, sy'n awgrymu felly nad oedd yn sialens barhaus. Er na chafodd ei datrys o ddifrif gan fod hynny wedi golygu y byddai gwerinwyr dan berchenogaeth y pentref yn hytrach na'r tirfeddianwyr. Roedd yn brif broblem oherwydd roedd yn atal moderneiddio, a hyd yn oed yn 1861 pan oedd i fod wedi'i ddatrys, nid oedd y gwaith moderneiddio'n ffynnu. Roedd hyn oherwydd gallai'r gwerinwyr symud tan y byddai dyled tir yn cael ei thalu a bod rhaid defnyddio pasbortau. Er hyn, yn 1864 roedd 14,000 o ffatrïoedd, a chododd pwysau haearn crai i 300,000 tunnell. Er nad oedd Rwsia ar yr un raddfa â gwledydd eraill, megis Prydain, gwnaeth ei hateb i'r taeogion ganiatáu iddi foderneiddio, gan olygu nad oedd yn brif sialens. Fodd bynnag, gwnaeth yr ateb a weithredodd Alecsander II adael y taeogion a'r tirfeddianwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu twyllo, gan achosi cynnydd yn nifer y gwrthwynebwyr gwleidyddol, a gwneud gwrthwynebiad gwleidyddol yn brif broblem unwaith eto gan ei fod ar gynnydd.

I gloi, credaf fod gwrthwynebiad gwleidyddol wedi bod yn brif sialens a wynebwyd gan Tsariaid Rwsia gan fod ymagwedd y ddau arweinydd wedi arwain at gynnydd yn y gwrthwynebwyr, p'un a oedd yn amlwg megis yn ystod teyrnasiad Alecsander, neu'n syml ynghudd megis yn ystod teyrnasiad Nicolas I. Y naill ffordd neu'r llall, gwnaeth eu gweithredoedd arwain at gynnydd ac at fod yn brif sialens trwy gydol teyrnasiad y ddau, ac yn y pen draw, gwrthwynebiad gwleidyddol wnaeth achosi i deyrnasiad Alecsander II a Tsariaeth ddod i ben.

## Enghraifft batrymol 2

**I ba raddau y gellir dweud mai o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd y broses o uno'r Eidal ei chyflawni'n bennaf yn y cyfnod 1848-1870.**

I raddau helaeth, credaf mai yn bennaf o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni, oherwydd gyda chymorth Ffrainc yn 1859, llwyddodd yr Eidal i uno'n rhannol. Hefyd, arweiniodd y rhyfel rhwng Ffrainc a Phrwsia yn ddiweddarach at uno Teyrnas yr Eidal yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, ni ellir dweud mai yn bennaf trwy ymyrraeth gan wledydd tramor y cyflawnwyd hynny, oherwydd roedd taleithiau'r De yn unedig oherwydd ffactor mewnol – Garibaldi.

Yn 1848, roedd chwyldroadau ledled yr Eidal. Achoswyd hynny gan ddymuniadau cenedlaetholgar a Phab rhyddfrydol, yn ôl pob golwg. Felly gellid dweud mai yn bennaf o ganlyniad i lif o genedlaetholdeb y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni. Fodd bynnag, ni all y chwyldroadau yn 1848 a'r farn ramantaidd ynglŷn ag uno fod yn bennaf gyfrifol am uno'r Eidal, oherwydd ni wnaed unrhyw gynnydd o ganlyniad i hynny. Gwnaeth 1848 amlygu trobwynt yn yr Eidal wrth i bobl sylweddoli nad oedd yr awydd am uno yn ddigon. Yn wir, mae'n bosib mai yn bennaf o ganlyniad i'r sylweddoliad hwn y cafodd yr uno ei gyflawni, oherwydd ni wnaed cynnydd cyffredinol tan ar ôl hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl fod ymyrraeth Napoleon III wrth amddiffyn y Pab wedi dihuno cenedlaetholwyr yr Eidal, fyddai'n golygu mai o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni.

Yn bennaf o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1848-1870, oherwydd mae'r rhyfel rhwng Awstria a Piedmont yn ddyledus i'r cymorth a gafwyd gan Napoleon III o Ffrainc. Yn 1859, rhoddodd 200,000 o filwyr i Piedmont yn erbyn Awstria. Gwnaeth y milwyr hyn helpu Piedmont i oresgyn y prif rwystr i uno'r Eidal, gan ddangos mai i raddau helaeth, o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni. Fodd bynnag, datblygodd Cavour gysylltiadau da â Napoleon III yn ystod Rhyfel y Crimea yn 1854-56, sy'n golygu bod unrhyw ymyrraeth gan Napoleon wedi'i gyflawni'n bennaf o ganlyniad i sgiliau diplomyddol Cavour. Fe wnaeth Cavour fanipiwleiddio'r sefyllfa yn rhyngwladol i gyd-fynd â'r dymuniad i uno'r Eidal, ac felly heb amheuaeth, yn bennaf o ganlyniad i Cavour y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni. Cavour wnaeth annog yr ymyrraeth gan wledydd tramor, gan arwain at Eidal unedig.

Mae haneswyr yn cwestiynu p'un ai nod Cavour oedd uno ai peidio. Yn hytrach, maen nhw'n credu ei fod eisiau Piedmont estynedig. Felly, efallai mai yn bennaf o ganlyniad i'r dymuniad a'r twf yng ngrym Piedmont y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni. Gwnaed gwaith moderneiddio a diwydianeiddio mawr yn Piedmont yn yr 1850au, ac yn naturiol, roedd yn flaenllaw yn y gwaith o uno ar ôl y rhyfel gydag Awstria yn 1848. Ni all y syniad mai yn bennaf o ganlyniad i ehangu Piedmont y cafodd yr uno ei gyflawni fod yn berthnasol, oherwydd dim ond hanner y gwaith o uno a wnaeth Cavour drwy ei sgiliau gwleidyddol, a chafodd taleithiau'r de eu huno gan Garibaldi yn 1860. Gwnaeth arwain goresgyniad o

© Hawlfraint y Goron 2018

Sicilia i fyny drwy Napoli gan uno'r De yn y pen draw. Fodd bynnag, ni fyddai hyn ynddo'i hun wedi sicrhau uno'r Eidal oherwydd yr oedd mewn gwirionedd yn cael ei hamddiffyn gan y sefyllfa ryngwladol. Gwnaeth Prydain anfon gynfad i ddiogelu Garibaldi rhag ataliad gan elynion, sy'n dangos bod ymyrraeth gan wledydd tramor wedi sicrhau llwyddiant ymyrraeth fewnol o goncwest Garibaldi.

Er gwaethaf y rhyfel rhwng Awstria a Piedmont yn 1859, yr heddwch yn Villafranca a arweiniodd at ddymuniad taleithiau'r gogledd i ymuno â Piedmont. Hefyd, oherwydd yr ymyrraeth gan Awstria a Ffrainc, trefnwyd pleidleisiau gwlad ymhlith y taleithiau canolog, megis Modena. Y pleidleisiau gwlad hyn oedd yn bennaf gyfrifol am ddechrau uno'r Eidal yn gyffredinol, gan arwain at y syniad mai o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni.

Mae nifer o ffactorau, megis Cavour, wedi sicrhau a threfnu'r ymyrraeth oherwydd cymorth gan wledydd tramor. Ond yr ymyrraeth gan wledydd tramor yn unig sy'n cael ei ystyried yn gyfrifol am uno'r Eidal yn derfynol ar ôl 1860. Symudwyd milwyr Ffrainc o Rufain yn 1870, a hynny sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau y byddai teyrnas yr Eidal yn gallu meddiannu Rhufain a chwblhau'r broses derfynol o uno'r Eidal. Ychwanegwyd Venetia hefyd o ganlyniad i ddiplomyddiaeth gan Ffrainc.

Teimlaf na ellir dweud mai yn bennaf o ganlyniad i ymyrraeth gan wledydd tramor y cafodd uno'r Eidal ei gyflawni, neu o leiaf nid yr Eidal i gyd, oherwydd roedd nifer o ffactorau a ffigyrau, megis Cavour, Garibaldi a Victor Emmanuel, wedi helpu i sicrhau'r gwaith o uno'r Eidal. Er hynny, beth bynnag oedd sgiliau a chyfraniad materion cartref, cynorthwyodd y sefyllfa ryngwladol y gwaith o uno'r Eidal hyd at 1860 ac yna datblygwyd hynny ymhellach yn y 60au hwyr a'r 70au. Felly, cafodd uno'r Eidal ei gyflawni o ganlyniad i bolisi tramor yn unig ar ôl 1860, oherwydd cyn hynny, roedd gan Cavour afael rhy dynn ar ymyrraeth gan wledydd tramor.

© Hawlfraint y Goron 2018